

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Hydref 2019

Presennol- Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Siân Godbert, Neil Pringle,
Janet Charlton, Caerwyn Roberts, Clerk.
Ymddiheuriad - Nick Corney, Dyfed Jones. Cyng. Elizabeth Roberts

Datgan diddordeb – Dim datganiad o ddiddordeb

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 9fed Fedi 2019.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair.

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan

Penderfynwyd fel a ganlyn

[a] Uchafrif o ddau achlysur y flwyddyn [b] Dau achlysur tebygol y flwyddyn yn unig.

Llogi'r Cae; Achlysuron Masnachol £200.00 y dydd, Di fasnachol £50.00 y dydd,

Achosion da am ddim.

Achlysuron i gael eu adolygu'n rheolaidd.

[1.3] Colofn Golau Ffordd yr Orsaf

Nodwyd bod APCE wedi cadarnhau y bydd y golofn olau wedi ei hatgyweirio erbyn diwedd mis Hydref, yn union yr un addewid a dderbyniwyd ar gyfer mis Medi.

[1.4] Siop Sglodion

Deallwyd fod pridd wedi ei roi i'w guddio. Cytunodd y Cyng. E Roberts i wneud ymholiadau pellach.

[1.5] Cynigion ar gyfer Cae Llan gan y Cyng. Neil Pringle

Cyfeiriodd y clerch at nifer o gynigion . Y clerch i drefnu dyddiad cyfleus ar gyfer trafodaeth

Neil / Dyfed / Cyng. Elisabeth Roberts

[1.6] Gwelliannau/Mynwent Erw Hedd

Nodwyd bod y mater yn parhau

[1.7] Baw Cwn ar y Triongl Glaswellt ym Mhentre' Du

Penderfynwyd cadw llygad ar y sefyllfa wedi i'r arwyddion gael ei gosod gan Gyngor BS Conwy.

[1.8] Ffordd yr A5 /Rhaeadr Ewynnol Diogelwch y Cyhoedd

Dyweddodd y Cyng. Elisabeth Roberts fod asiant yr adran briffyrdd ar hyn o bryd yn paratoi adroddiad ynglŷn â gwrthdrawiad traffig ayb.

Y brif Agenda

[1.8] Materion Cynllunio

Estyniad i'r ddormer bresennol yn y cefn. 5 Banc Llugwy, Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.9] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Medi 2019

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Medi 2019.

[2] Mandate Banc

Eglurodd y clerc fod Cyng Dyfed Jones wedi cytuno i fod yn llofnod ar gyfer materion bancio'r Cyngor Cymuned. Penderfynwyd cymeradwyo Dyfed Jones i lofnodi dros Gyngor Cymuned Betws-y-Coed.

[2.1] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol

Penderfynwyd cymeradwyo'r Ffurflen Allanol hyd at ddiwedd Mawrth 2019.
Nodwyd nad oedd unrhyw fater angen sylw.

[2.2] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Gwydyr/ Diweddariad

Nodwyd bod y gwaith yn parhau ar Lŷn Cyffty, Llyn Sarnau a Goddionduon gyda'r gwaith i gael ei gwblhau erbyn Ionawr 2020.
Bydd y gwaith ar y bedwaredd gronfa Llyn Tynymynydd yn dechrau yng Ngwanwyn 2020.

[2.3] Trafnidiaeth Gymunedol

Nodwyd fod Cefnogaeth Wirfoddol Conwy i'r Gymuned wedi sefydlu cynllun cerbyd cymunedol yng Ngherrig-y-Drudion a Betws-y-Coed. Bydd y cerbyd yn cael ei rannu rhwng y ddwy feddygfa ar gyfer claf gwantan sydd angen mynd i weld ei meddyg. Bydd y cynllun yn cael ei lansio ym meddygfa Betws-y-Coed dydd Llun 21ain Hydref am 1.00 y prynhawn.

[2.4] Ffordd Craiglan

Y clerc i anfon at Gyngor BS Conwy mai'r arwydd "Anaddas I Garafanau" fyddai'r arwydd mwyaf priodol i'w osod ar gyffordd ffordd yr A5.

[2.5] Materion Amrywiol

Y clerc i ddilyn y materion canlynol ymlaen;

[a] Mainc wedi torri yng Nghae Llan

[b] Llwybr dan ddŵr yn y cae.

Cadeirydd_____